**Cymraeg mewn Ymarfer Proffesiynol 1**

*Welsh in Professional Practice 1*

**2025-26**

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

# BA1 - Darlith 11

## Cwestiynau'r Amser Presennol

*Present Tense Questions*

Peniarth .cymru | Rhagor iaith | Canolfan Gwasanaethau Cymraeg | Welsh Language Services Centre

mari.powell@uwtsd.ac.uk

# Nod y wers heddiw ydy ...

*The aim of today's lesson is ...*



- **Adolygu**
  *Revision*
- **Amser Cofrestru!**
  *Registration Time!*
- **Cwestiynau'r Amser Presennol**
  *Present Tense Questions*



# Mae hi'n Amser Cofrestru!

*It's Registration Time!*



# Mae hi'n amser cofrestru!

Bore da, bawb!

Mae hi'n amser cofrestru!

Prynhawn da, blant!

Pwy sy'n barod?!



# Gorchmynion!



Edrychwch arna i!

Eisteddwch, bawb!

Gwrandewch yn ofalus, blant!

Da iawn!

Gwranda'n ofalus, Jac!

Bendigedig!

Ardderchog!

# Mwy o Orchmynion!

Dim siarad, blant!

Rhaid eistedd ar y mat!

Paid â gweiddi, Jac!

Peidiwch â gweiddi, ferched!



# Beth ydy'r cwestiwn?!

**Ydy ... yma heddiw?**
*Is ... here today?*

**Sut wyt ti heddiw?**

**Yma!**
*Here!*

**Ble wyt ti'n byw?**

**Absennol!**
*Absent!*



# Beth ydy'r cwestiwn?!



**Pwy** sy'n absennol heddiw?

Carys a Dylan
**sy'n absennol heddiw!**



# Beth ydy'r ateb?!

Wyt ti **eisiau**
cinio ysgol neu frechdanau?








Dw i **eisiau** cinio ysgol, os gwelwch yn dda.



# Beth ydy'r cwestiwn?!



**Faint** sy'n cael cinio ysgol heddiw?



22 sy'n cael cinio ysgol heddiw.



# Beth ydy'r ateb?!



**Faint** sy'n cael brechdanau heddiw?

Pump sy'n cael brechdanau heddiw.






# Beth ydy'r cwestiwn?!



**Pa ddydd ydy hi heddiw?**

**Dydd Mawrth**
ydy hi heddiw.



'**Ydy**' yn y cwestiwn = '**Ydy**' / '**Nac ydy**' yn yr ateb

# Ydy hi'n ddydd Mawrth heddiw?

✓ **Ydy**, mae hi'n ddydd Mawrth heddiw.

✗ **Nac ydy**, dydy hi ddim yn ddydd Mawrth heddiw.

# Beth ydy'r ateb?!



**Pa fis ydy hi?**

Mis **Rhagfyr** ydy hi.



'**Ydy**' yn y cwestiwn = '**Ydy**' / '**Nac ydy**' yn yr ateb

## Ydy hi'n fis Rhagfyr?

✓ **Ydy**, mae hi'n fis Rhagfyr.

✗ **Nac ydy**, dydy hi ddim yn fis Rhagfyr.

# Beth ydy'r cwestiwn?!



**Pa dymor ydy hi?**

**Gaeaf** ydy hi.



# Beth ydy'r dyddiad heddiw?

Dydd Sul
Dydd Llun
Dydd Mawrth
Dydd Mercher
Dydd Iau
Dydd Gwener
Dydd Sadwrn

Ionawr
Chwefror
Mawrth
Ebrill
Mai
Mehefin
Gorffennaf
Awst
Medi
Hydref
Tachwedd
Rhagfyr

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **1af** y cyntaf | **2il** yr ail | **3ydd** y trydydd |
| **4ydd** y pedwerydd | **5ed** y pumed | **6ed** y chwerched | **7fed** y seithfed | **8fed** yr wythfed | **9fed** y nawfed | **10fed** y degfed |
| **11eg** yr unfed ar ddeg | **12fed** y deuddegfed | **13eg** y trydydd ar ddeg | **14eg** y pedwerydd ar ddeg | **15fed** y pymthegfed | **16eg** yr unfed ar bymtheg | **17eg** yr ail ar bymtheg |
| **18fed** y deunawfed | **19eg** y pedwerydd ar bymtheg | **20fed** yr ugeinfed | **21ain** yr unfed ar hugain | **22ain** yr ail ar hugain | **23ain** y trydydd ar hugain | **24ain** y pedwerydd ar hugain |
| **25ain** y pumed ar hugain | **26ain** y chwecched ar hugain | **27ain** y seithfed ar hugain | **28ain** yr wythfed ar hugain | **29ain** y nawfed ar hugain | **30ain** y degfed ar hugain | **31ain** yr unfed ar ddeg ar hugain |

**Dydd Mawrth, Rhagfyr yr ail.**

# Sut mae'r tywydd heddiw?



## Mae hi'n braf heddiw.

# Sut **oedd** y tywydd **ddoe**?



Roedd hi'n **w**yntog ddoe.

# Sut bydd y tywydd yfory?



Bydd hi'n bwrw eira yfory.

# Ydy hi'n gymylog heddiw?

**Ydy**, mae hi'n gymylog heddiw.

**Nac ydy**, dydy hi ddim yn gymylog heddiw.

# Mae hi'n amser cofrestru!

- Greet the class!
- It's Registration Time!
- Is ..... here today?
- Who is absent today?
- How are they feeling?
- Where do they live?
- School dinner / Sandwiches How many?
- Discuss Day / Month / Season
- What's the date?
- Discuss the weather
- Likes / Dislikes?

| Rhif | Pwy? |
|---|---|
| 1 | Cara |
| 2 | Ed |
| 3 | Ella |
| 4 | Faye |
| 5 | Ffion |
| 6 | Jess |
| 7 | Jessie |
| 8 | Keira |
| 9 | Leona |
| 10 | Lily |
| 11 | Nia |
| 12 | Rosie |
| 13 | Shreya |
| 14 | Seren |



CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

# Mae hi'n amser adolygu!

*It's time to revise!*

# Eisiau *To want*

Dw i eisiau coffi.
Dw i ddim eisiau coffi.

Dw i~~'n~~ eisiau coffi.
Dw i ddim ~~yn~~ eisiau coffi.

Does dim **yn** neu **'n** o flaen '**eisiau**'.

*There is no yn or 'n before 'eisiau'.*

# Dw i eisiau ...



oren



diod



brechdan



tost



ffrwyth

dŵr





banana

llaeth



# Dw i ddim eisiau ...



rhedeg



darllen



canu



mynd i'r tŷ bach



chwarae yn y tywod



peintio



lliwio

# Ateb Cwestiynau *Answering Questions*

Wyt ti eisiau banana?

**Ydw**, dw i eisiau banana.

**Ydw**, dw i eisiau banana, os gwelwch yn dda.

# **Ateb Cwestiynau** *Answering Questions*

Wyt ti eisiau banana?

**Nac ydw**, dw i ddim eisiau banana.

**Nac ydw**, dim diolch.

# Ateb Cwestiynau

Ydy e eisiau darllen stori?

**Ydy**, mae e eisiau darllen stori.

# Ateb Cwestiynau

Ydy hi eisiau chwarae gêm?

**Nac ydy**, dydy hi ddim eisiau chwarae gêm.

# Pwy sy eisiau ...? *Who wants ...?*

**Pwy** sy eisiau cinio ysgol?

**Pwy** sy eisiau ffrwyth?

**Pwy** sy eisiau llaeth?

**Pwy** sy eisiau darllen?

**Pwy** sy eisiau helpu?

**Tom ac Elis** sy eisiau cinio ysgol.

**Dosbarth Derbyn** sy eisiau ffrwyth.

**Lois** sy eisiau llaeth.

**Jac** sy eisiau darllen.

**Bethan a Soffia** sy eisiau helpu.

# Cwestiynau'r Amser Presennol

*Present Tense Questions*

# Cwestiynau'r Dosbarth

*Classroom Questions*



**Mae ‘Ydy…?’ ac ‘Ydy’r…?’ ar ddechrau’r cwestiwn yn holi am rywbeth pendant.**

**‘Ydy…?’** *or* **‘Ydy’r…?’** *at the beginning of a question asks about something* ***definite***.

**Mae ‘Oes…?’ ar ddechrau cwestiwn yn gofyn am rywbeth amhendant.**

**‘Oes…?’** *at the beginning of a question asks about something* ***indefinite*** *(a / some).*

Ydy …?



| Cwestiwn ? | Ateb cadarnhaol + | Ateb negyddol - |
|---|---|---|
| **Ydw i?**<br>*Am I? / Do I?* | **Wyt, rwyt ti**<br>*Yes, you are*<br>**Ydych, rydych chi**<br>*Yes, you are* | **Nac wyt, dwyt ti ddim**<br>*No, you are not*<br>**Nac ydych, dydych chi ddim**<br>*No you are not* |
| **Wyt ti?**<br>*Are you? / Do you?* | **Ydw, rydw i**<br>*Yes, I am* | **Nac ydw, dydw i ddim**<br>*No, I am not* |
| **Ydy e?**<br>*Is he? / Does he / it?* | **Ydy, mae e**<br>*Yes, he is / Yes, it is* | **Nac ydy, dydy e ddim**<br>*No, he is not / No, it is not* |
| **Ydy hi?**<br>*Does she? / Does she / it?* | **Ydy, mae hi**<br>*Yes, she is / Yes, it does* | **Nac ydy, dydy hi ddim**<br>*No, she is not / No, it does not* |
| **Ydyn ni?**<br>*Are we? / Do we?* | **Ydyn, rydyn ni**<br>*Yes, we are*<br>**Ydych, rydych chi**<br>*Yes, you are* | **Nac ydyn, dydyn ni ddim**<br>*No, we are not*<br>**Nac ydych, dydych chi ddim**<br>*No, you are not* |
| **Ydych chi?**<br>*Are you? / Do you?* | **Ydw, rydw i**<br>*Yes, I am*<br>**Ydyn, rydyn ni**<br>*Yes, we are* | **Nac ydw, dydw i ddim**<br>*No, I am not*<br>**Nac ydyn, dydyn ni ddim**<br>*We, we are not* |
| **Ydyn nhw?**<br>*Are they? / Do they?* | **Ydyn, maen nhw**<br>*Yes, they are* | **Nac ydyn, dydyn nhw ddim**<br>*No, they are not* |

'**ti**' yn y cwestiwn = '**fi**' yn yr ateb

# Wyt ti'n hoffi darllen?

**Ydw**, rydw i'n hoffi darllen.

**Nac ydw**, dydw i ddim yn hoffi darllen.

'**Ydy**' yn y cwestiwn = '**Ydy**' / '**Nac ydy**' yn yr ateb

## Ydy e'n hoffi darllen?

**Ydy**, mae e'n hoffi darllen.

**Nac ydy**, dydy e ddim yn hoffi darllen.

Does dim **yn** neu **'n** o flaen '**eisiau**'

## Wyt ti eisiau darllen?

✓ **Ydw**, rydw i eisiau darllen.

✗ **Nac ydw**, dydw i ddim eisiau darllen.

Does dim **yn** neu **'n** o flaen '**eisiau**'

# Ydy hi eisiau darllen?

**Ydy**, mae hi eisiau darllen.

**Nac ydw**, dydy hi ddim eisiau darllen.

'**chi**' yn y cwestiwn = '**ni**' yn yr ateb

# Ydych chi'n gwrando?

✓ **Ydyn**, rydyn ni'n gwrando.

✗ **Nac ydyn**, dydyn ni ddim yn gwrando.

# Ydyn nhw'n gweithio?

**Ydyn**, maen nhw'n gweithio.

**Nac ydyn**, dydyn nhw ddim yn gweithio.

## Ydy'r llyfr ar y bwrdd?

**Ydy**, mae'**r** llyfr ar y bwrdd.

**Nac ydy**, dydy'**r** llyfr ddim ar y bwrdd.

# Sgwrs

| | |
|---|---|
| Athrawes: | **Mae hi'n amser snac. Wyt ti eisiau afal, Gethin?** |
| Gethin: | **Nac ydw, dydw i ddim eisiau afal.** |
| Athrawes: | **Wyt ti'n hoffi afal?** |
| Gethin: | **Nac ydw, dydw i ddim yn hoffi afal ond rydw i'n hoffi banana.** |
| Athrawes: | **Wyt ti eisiau banana?** |
| Gethin: | **Ydw, dw i eisiau banana.** |
| Athrawes: | **Pwy arall sy eisiau ffrwyth?** |
| Plant: | **Ni!** |
| Athrawes:<br>Plant: | **Ydych chi'n hoffi ffrwythau?**<br>**Ydyn!** |



# Cymraeg Bob Dydd






▶ 0:26 0:26 Now playing Cymraeg Bob Dydd (Cynradd) Uned 18 - Adborth un i un (One to one feedback) Dysgu Cymraeg - Learn Welsh

# Atebwch y cwestiwn ...
*Answer the question ...*



## Wyt ti'n hoffi chwarae pêl-rwyd?

# Atebwch y cwestiwn ...
*Answer the question ...*



## Ydy hi eisiau help?

# Atebwch y cwestiwn ...
*Answer the question ...*



## Ydyn nhw'n hoffi Mathemateg?

# Atebwch y cwestiwn ...
*Answer the question ...*



**Ydych chi eisiau mynd am drip?**

# Atebwch y cwestiwn ...

*Answer the question ...*



## Ydy Mrs Williams yn dysgu Blwyddyn 2?

# Atebwch y cwestiwn ...

*Answer the question ...*



## Ydy'r pensil yn y pot?

# Oes ...?



# Oes ...?

If there is an '**Oes**' in the question, there will be an '**Oes**' in the answer:

**Oes papur ar y bwrdd?**

**Oes** ✓

**Nac oes** ✗

# Oes llygaid glas gyda ti?

**Oes**, mae llygaid glas gyda fi.

**Nac oes**, does dim llygaid glas gyda fi.

# Oes ci gyda fe?

**Oes**, mae ci gyda fe.

**Nac oes**, does dim ci gyda fe.

# Oes gwers Cymraeg heddiw?

**Oes**, mae gwers Cymraeg heddiw.

**Nac oes**, does dim gwers Cymraeg heddiw.

# Oes gwasanaeth ar ddydd Llun?

**Oes**, mae gwasanaeth ar ddydd Llun.

**Nac oes**, does dim gwasanaeth ar ddydd Llun.

# Oes pensiliau ar y llawr?

**Oes**, mae pensiliau ar y llawr.

**Nac oes**, does dim pensiliau ar y llawr.

# Sgwrs

| | |
|---|---|
| Athrawes: | **Oes brawd gyda ti, Gareth?** |
| Gareth: | **Nac oes, does dim brawd gyda fi.** |
| Athrawes: | **Oes chwaer gyda ti?** |
| Gareth: | **Oes, mae dwy chwaer gyda fi – Gwenno ac Erin.** |
| Athrawes: | **Oes anifail anwes gyda ti?** |
| Gareth: | **Oes, mae un ci ac un gath gyda fi.** |
| Athrawes: | **Beth ydy enw'r ci?** |
| Gareth: | **Smot.** |
| Athrawes: | **Beth ydy enw'r gath?** |
| Gareth: | **Twm ydy'r gath. Mae e'n gymeriad!** ***(a character)*** |



# Atebwch yn llawn ...

*Answer in full ...*



Ydy hi'n bwrw glaw?

# Atebwch yn llawn ...
*Answer in full ...*



Oes cymylau yn yr awyr?

# Atebwch yn llawn ...
*Answer in full ...*



Ydy'r llyfrau ar y silff?

# Atebwch yn llawn ...
*Answer in full ...*



Oes llyfrau ar y silff?

# Atebwch yn llawn ...
*Answer in full ...*



Ydy'r creon coch ar y bwrdd?

# Atebwch yn llawn ...
*Answer in full ...*



Oes creonau ar y bwrdd?

# Mwy o gwestiynau!

*More questions!*

Pryd?

Ble?

Pam?



Pwy?

Sut?

Beth?

Pa un?

Faint?

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Pwy ...?**<br>**Who ...?** | **+ berf**<br>**+ verb** | **+ treiglad meddal** | **Pwy fwytodd ffrwyth i frecwast?** |
| Ble ...?<br>Where ...? | + berf<br>+ verb | DIM treiglad | Ble mae Helen yn byw? |
| Pam ...?<br>Why ...? | + berf<br>+ verb | DIM treiglad | Pam wyt ti'n athro? |
| Beth ...?<br>What ...? | + berf<br>+ verb | + treiglad meddal | Beth ddarllenaist ti neithiwr? |
| Sut ...?<br>How? | + berf<br>+ verb | DIM treiglad | Sut est ti i'r dref? |
| Sut ...?<br>What kind of ...? | + enw<br>+ noun | + treiglad meddal | Sut lyfr ydy e? |
| Faint o ...?<br>How many ...? | + enw lluosog<br>+ plural noun | + treiglad meddal | Faint o ddisgyblion sydd yn y dosbarth? |
| Pa ...?<br>Which ...? | + enw<br>+ noun | + treiglad meddal | Pa liw ydy'r trên? |
| Pryd ...?<br>When ...? | + berf<br>+ verb | DIM treiglad | Pryd byddi di'n mynd adref? |

| | | |
|---|---|---|
| **Pwy?** | Pwy wyt ti? | Pwy ydych chi? |
| **Ble?** | Ble wyt ti'n byw? | Ble ydych chi'n byw? |
| **Pam?** | Pam wyt ti eisiau papur? | Pam ydych chi eisiau papur? |
| **Beth?** | Beth wyt ti'n wneud? | Beth ydych chi'n wneud? |
| **Sut?** | Sut wyt ti'n teimlo? | Sut ydych chi'n teimlo? |
| **Faint?** | Faint o lyfrau wyt ti wedi darllen? | Faint o lyfrau ydych chi wedi darllen? |
| **Pa un?** | Pa un wyt ti'n hoffi? | Pa un ydych chi'n hoffi? |
| **Pryd?** | Pryd wyt ti'n mynd adref? | Pryd ydych chi'n mynd adref? |

# Cymraeg Bob Dydd

CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE




▶ 0:28 0:28 Now playing Cymraeg Bob Dydd (Cynradd) Uned 18 - Rhoi Adborth (Giving Feedback) Dysgu Cymraeg - Learn Welsh

# **Ble mae …?** *Where is …?*

Ble mae Tedi?

Ble mae Siân?

Ble mae Mrs Jones?



# Ble mae'r ...? *Where is the ...?*

Ble mae'r tedi?

Ble mae'r pensil?

Ble mae'r llyfr?



# Ble mae'r ...? *Where is the ...?*

Ble mae'r **b**êl?

Ble mae'r **g**ath?

Ble mae'r **g**ot?



Feminine nouns softly mutate after **'r** except for nouns beginning with ***ll*** and ***rh***.

# Arddodiaid *Prepositions*

**Mae arddodiaid yn gallu dweud wrthon ni ble mae gwahanol wrthrychau.**

*We use prepositions to describe the location of different objects.*

| | |
|---|---|
| **ar** | *on* |
| **o dan** | *under* |
| **tu ôl** | *behind* |
| **yn y** | *in the* |
| **o flaen** | *in front (of)* |
| **uwchben** | *above* |
| **ar bwys** | *next to* |
| **rhwng** | *between* |

# Ble mae'r llyfrau?




Mae'r llyfrau **ar** y silff.

# Ble mae'r tedi?




Mae'r tedi **tu ôl** y blociau.

# Ble mae'r bêl?




Mae'r bêl **o flaen** y lori.

# Ble mae'r bwrdd?




Mae'r bwrdd **rhwng** y cadeiriau.

# Ble mae'r planhigyn?



Mae'r planhigyn **o dan** y cloc.

# Ble mae'r cloc?



Mae'r cloc **uwchben** y planhigyn.

# Ble mae'r pen?



Mae'r pen **yn** y pot.

# Ble mae'r cyfrifiadur?



Mae'r cyfrifiadur **ar bwys** y llyfrau.

# Holi, holi, holi!

- Choose one question from each of the next slides and write them on your whiteboards
- Work in groups of 3
- In your groups, one person will **time**, one person will **ask the questions** and one person will **answer the questions**
- After ONE minute rotate!
- The winner is the person who managed to answer the most questions in a minute!

**Pryd?**

**Ble?**

**Pam?**



**Pwy?**

**Sut?**

**Beth?**

**Pa un?**

**Faint?**

Ble wyt ti'n byw?

Ble maen nhw'n byw?

# Ble …?

*Where…?*

Ble mae'r plant?

Ble mae'r pensil?

Pryd mae dy <u>**b**</u>en-blwydd?

Pryd mae ei <u>**ph**</u>en-blwydd?

**Pryd ...?**

*When ...?*

Pryd mae'r <u>**w**</u>ers Ymarfer Corff?

Pryd mae cinio?

Pwy wyt ti?

Pwy ydy hi?

# Pwy ...?

*Who...?*

Pwy sy'n absennol heddiw?

Pwy sy angen help?

Pam wyt ti'n hoffi Mathemateg?

Pam mae hi'n hwyr?

# Pam ...?

*Why...?*

Pam wyt ti'n drist?

Pam maen nhw'n hoffi rhedeg?

Beth wyt ti'n wneud?

Beth wyt ti'n hoffi?

# **Beth ...?**

*What...?*

Beth mae e'n darllen?

Beth mae hi eisiau?

Sut mae'r tywydd heddiw?

Sut wyt ti?

**Sut ...?**

*How...?*

Sut est ti adre ddoe?

Sut mae hi?

Faint o **b**lant sy yn y dosbarth?

Faint o **dd**isgyblion sy'n absennol heddiw?

# Faint o ...?

*How many...?*

Faint o **d**îmau sy'n chwarae?

Faint o'r gloch ydy hi?

Pa liw ydy dy hoff liw?

Pa lyfr wyt ti'n hoffi?

# Pa ...?

*Which...?*

Pa un wyt ti'n hoffi?

Pa un wyt ti eisiau?

# Mae hi'n amser ymarfer!

1. ________________ eisiau ymuno â'r Clwb Garddio, Efa?
2. ________________ sy'n dod i'r ymarfer pêl-droed?
3. ________________ **w**ers sydd gyda ti cyn cinio?
4. ________________'n barod, **b**lant?
5. ________________ mae'r gampfa?
6. ________________ wyt ti'n hoffi gwersi cerddoriaeth?
7. ________________ maen nhw'n wneud?
8. ________________ mae Rhiannon yn teimlo heddiw?

| |
|---|
| Pwy ...? |
| Wyt ti ...? |
| Pam ...? |
| Beth ...? |
| Ble ...? |
| Ydych chi ...? |
| Sut ...? |
| Pa ...? |

# Tasg – Llyfr Bwrdd

- Ble mae ...?
- Ble mae'r ...?
- Pa liw ...?
- Faint o ...?
- Pwy sy’n ...?
- Beth sy’n ...?
- Ydy'r ...?
- Oes ...?



# Tasg i'r Portffolio

## Tasg Llafar 1: Sylfaen A2

(o'r Pecyn Cymorth gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol)

**Tystiolaeth 3 & 4**

Ateb / Gofyn cwestiynau 'yes/no'

*Asking / Answering 'yes'/no' questions*



# Tasg i'r Portffolio

## Tasg Gwrando 1: Sylfaen A2

(o'r Pecyn Cymorth gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol)

Gwrando ar negeseuon ffôn / ar ddeialog, wedyn ateb cwestiynau

*Listening to phone messages / dialogue, then answer questions*



# Da iawn, bawb!

★

# Hwyl fawr!